| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **18 Chwefror 2014** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Eryl Williams, Yr Aelod Arweiniol dros Addysg** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg** |
| **Teitl:** | **Cymeradwyo Achos Busnes ar gyfer Prosiect Ysgol Newydd y Rhyl** |

---

## 1. Ynglŷn â beth mae'r adroddiad?

Mae'r adroddiad yn ceisio hysbysu'r Cabinet ynghylch y sefyllfa gyfredol mewn perthynas â'r Achos Busnes Terfynol ar gyfer Ysgol Newydd y Rhyl a gyflwynwyd gan y Cyngor i Lywodraeth Cymru.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad?

Ym mis Medi 2013 fe gymeradwyodd Llywodraeth Cymru'r Achos Amlinellol Strategol ar gyfer prosiect Ysgol Newydd y Rhyl. Yn dilyn trafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru cytunwyd i gyflwyno Achos Busnes Amlinellol / Terfynol iddi ei ystyried.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymell wrth y Cyngor ei fod yn cymeradwyo'r Achos Busnes ar gyfer Ysgol Newydd y Rhyl cyn iddo gael ei benderfynu gan Lywodraeth Cymru.

## 4. Manylion yr adroddiad.

4.1 Mae'r Cynllun Corfforaethol yn manylu ar uchelgais y Cyngor i fuddsoddi'n sylweddol yn y portffolio Adeiladau Ysgolion o 2012-17. Elfen sylweddol o'r gwaith yma fydd cyflawni prosiectau Band A ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

4.2 Rhoddodd Llywodraeth Cymru gymeradwyaeth mewn egwyddor ar gyfer £36.7m fel ei chyfraniad o 50% tuag at Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ym mis Rhagfyr 2011. Ar ôl hyn mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'r holl awdurdodau lleol i ganfod sut y gellir dyrannu'r buddsoddiad o £1.2 ar y cyfan ledled Cymru yn ffrydiau gwaith y gellir eu cyflawni ar gyfer awdurdodau lleol unigol. Un o'r prosiectau hyn oedd Ysgol Newydd y Rhyl. Bydd y prosiect yn darparu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd y Rhyl i wasanaethu hyd at 1200 o ddisgyblion mewn addysg brif-ffrwd gan hefyd gartrefu tua 45 o ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3/ 4 o Ysgol Tir Morfa, yr ysgol arbennig gymunedol yn y Rhyl.

4.3 Bydd yn ofynnol i'r holl brosiectau o fewn Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (RhY21ainG) ddilyn y canllawiau ar gyfer cymeradwyo Achosion Busnes a ddiffinnir ym Model Trysorlys EM. Ar gyfer prosiectau islaw £5m bydd yn ofynnol cael cymeradwyaeth i Achos Cyfiawnhau Busnes ac ar gyfer prosiectau uwchlaw £5m bydd yn ofynnol cael cymeradwyaeth i'r Achos Amlinellol Strategol (SOC), Achos Busnes Amlinellol (OBC) ac Achos Busnes Llawn (FBC).

4.4 Rhoddodd y Cabinet gymeradwyaeth ym mis Chwefror 2013 ar gyfer tua £1.5m i ariannu Cam 2 (Dyluniad Manwl) a fyddai'n ei gwneud yn bosib bwrw ymlaen â'r prosiect i gam lle gellid ceisio cymeradwyaeth i'r achos busnes llawn. Cafodd yr Adroddiad Dylunio Cam D ei gyflwyno gan Wilmott Dixon, y contractwr a benodwyd gan y Cyngor i gyflawni'r prosiect hwn, i Sir Ddinbych ym mis Rhagfyr 2013 ac mae'r ddogfen yn garreg filltir allweddol sy'n crynhoi'r gwaith dichonoldeb a wnaed dros yr 8 mis diwethaf ar y prosiect hwn. Yr amcanion allweddol yw:

- Rhoi trosolwg cynhwysfawr o'r gwaith dichonoldeb a wnaed.
- Deall y weledigaeth ar gyfer addysg a sut y mae hon wedi cael ei throsi'n gyfleuster cymunedol newydd.
- Dangos hyfedredd technegol sy'n briodol i ddyluniad yr adeilad a'r safle.
- Cyflwyno gwybodaeth gostio gadarn sy'n dangos y gellir cyflawni'r ysgol yn unol â chyllideb y cytunwyd arni.
- Dangos uwch raglen gyraeddadwy ar gyfer y prosiect sy'n adlewyrchu canlyniadau posib y broses gynllunio.
- Amlygu unrhyw risgiau sy'n dal i fodoli mewn perthynas âr prosiect a dangos y gellir lliniaru a rheoli'r rhain trwy gamau nesaf y prosiect.
- Cyflwyno lefel o wybodaeth am y gwaith dichonoldeb i gael cymeradwyaeth lwyddiannus i'r cyllid gan Sir Ddinbych / Llywodraeth Cymru ac i alluogi'r awdurdod i symud ymlaen at gamau manwl y prosiect.

4.5 Y gost ar y cyfan ar gyfer yr elfen o'r prosiect a roddwyd ar gontract i Wilmott Dixon o fewn yr adroddiad Cam D oedd £22,281,516. Roedd hyn £38,017 yn llai na'r swm a amcangyfrifwyd yn flaenorol. Cost y prosiect ar y cyfan ar hyn o bryd yw £24,586,100 sy'n cynnwys costau Sir Ddinbych (costau'r cleient a dylunio) a symiau wrth gefn y Cleient.

4.6 Mae'r Achos Busnes sydd wedi'i atodi'n ceisio cyllid o 50% gan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn golygu y bydd yn ofynnol i Sir Ddinbych ddarparu swm o £12,293,050. Mae'r swm wedi'i gynnwys o fewn y Cynllun Corfforaethol a Chynllun Cyfalaf cyffredinol.

4.7 Rhoddodd Grŵp Buddsoddi Strategol y Cyngor ystyriaeth i'r Achos Busnes (gweler Atodiad 1 am y crynodeb gweithredol) yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr 2014. Rhoddodd y grŵp ystyriaeth i nifer o faterion gan gynnwys maint yr ysgol, y trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion o fewn dyluniad cynllun y safle a'r broses a gyflawnwyd hyd yma. Yn dilyn trafodaeth helaeth argymhellwyd y dylid cyflwyno'r Achos Busnes i Lywodraeth Cymru a cheisio cymeradwyaeth gan y Cabinet a'r Cyngor yn eu priod gyfarfodydd ym mis Chwefror.

Cyflwynwyd yr Achos Busnes i Lywodraeth Cymru er mwyn iddi benderfynu arno, yn amodol ar safbwyntiau'r Cabinet a'r Cyngor, ar ddiwedd Ionawr 2014.

4.8 Rhagwelir y graddfeydd amser canlynol ar gyfer symud ymlaen gyda'r prosiect:-

| Gweithgaredd sy'n garreg filltir | Dyddiad |
|---|---|
| Cyflwyno Achos Busnes i Lywodraeth Cymru | Ion 2014 |
| Y Cabinet / Cyngor yn cymeradwyo'r Achos Busnes | Chwe 2014 |
| Llywodraeth Cymru'n asesu'r Achos Busnes | Maw 2014 |
| Cwblhau Cam 2 – Dyluniad Manwl | Mai 2014 |
| Dyfarnu'r Contract | Meh 2014 |
| Cam 3 – Adeiladu | Gorff 2014 – Maw 2016 |
| Trosglwyddo'n Derfynol | Maw 2016 |

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd datblygu Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Rhaglen Moderneiddio Addysg ehangach yn ffactor wrth sicrhau bod y Cyngor yn cwrdd â'i ddyhead i wella perfformiad mewn addysg ac ansawdd adeiladau ein hysgolion fel a ddogfennir yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor 2012 – 2017. Bydd y Rhaglen hefyd yn cynorthwyo'r Flaenoriaeth i Ddatblygu'r Economi Leol trwy fuddsoddi gwariant cyfalaf mewn gwella ansawdd adeiladau ysgolion.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Tua £24.6m yw'r costau a fydd yn deillio o brosiect Ysgol Newydd y Rhyl. Bydd cymeradwyo'r Achos Busnes yn ei gwneud yn bosib rhoi contract. Bydd y cyllid ar gyfer y flaenoriaeth hon o fewn y Cynllun Corfforaethol yn cael ei ddarparu trwy ddefnyddio cronfeydd, balansau, gwaredu asedau a thrwy fenthyca darbodus.

Bu trafodaethau helaeth yn cael eu cynnal gyda'r Gwasanaethau Hamdden mewn perthynas â'r trefniadau defnydd deuol ar gyfer y Ganolfan Hamdden. Yn dilyn derbyn arolwg cyflwr cytunwyd y bydd y Ganolfan Hamdden bresennol yn dal i gael ei defnyddio gan Ysgol Uwchradd y Rhyl a chan Ysgol Tir Morfa i ddarparu'r cwricwlwm Add. Gorff. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosib i'r ffocws fod ar wella'r cyfleusterau presennol yn hytrach na chreu ased arall o bosib.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gwblhawyd ar y penderfyniad? Dylid atodi'r templed EqIA wedi'i gwblhau fel atodiad wrth yr adroddiad.

Mae'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb o'r farn y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Bydd yr effaith yn cael ei monitro yn ystod oes y prosiect.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi cael eu cynnal gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Fe ymgynghorwyd yn helaeth â chymunedau Ysgol Uwchradd y Rhyl ac Ysgol Tir Morfa wrth ddatblygu'r prosiect hyd yma. Mae hyn wedi cynnwys nifer o gyfarfodydd ymgynghori yn y gymdogaeth i drafod y dyluniadau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer adeiladau'r ysgol newydd. Fe ymgysylltwyd hefyd â Grŵp Ardal Aelodau'r Rhyl a Chyngor Tref y Rhyl ar ddatblygiad y prosiect.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae hwn yn brosiect strategol allweddol yn Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a Chynllun Corfforaethol y Cyngor. Mae'r Cyngor eisoes wedi ymrwymo tua £1.5m i'r gwaith cychwynnol sydd wedi arwain at y cynnig hwn. Mae digon o gyllid cyfalaf ar gael i gyflawni'r prosiect am y gost ragamcanol.

Hwn yw'r prosiect cyfalaf sengl mwyaf erioed i'r Cyngor ymgymryd ag ef a chan hynny mae'n dwyn risg ariannol. Mae rheolaeth prosiect dda'n allweddol i hyn felly ac mae'n rhaid i'r prosiect gael ei fonitro'n ofalus. Hwn yw'r cyntaf o'r prosiectau mawr ar gyfer ysgolion i gael ei gyflawni ac mae mwy'n debygol o ddilyn.

Ym mhob cam mae'n rhaid bod y Cyngor wedi'i argyhoeddi bod pob prosiect yn rhoi gwerth am arian a bod y rhaglen ar y cyfan yn fforddiadwy ac y gellir ei chyflawni. Ar y cam hwn yn y rhaglen gellir ei chyflawni ac mae'n fforddiadwy.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i'w lleihau?

Mae'r Cabinet wedi cytuno'n flaenorol i ganlyn arni â'r prosiect hwn gan dderbyn y risg yn amodol ar gymeradwyo'r Achos Busnes. Os bydd y prosiect yn methu â chael cymeradwyaeth mae risg na fydd y gwaith a wnaed hyd yma'n cael ei ddatblygu ymhellach. Gellid ystyried bod y gymeradwyaeth i'r Achos Amlinellol Strategol ar gyfer y prosiect hwn ym mis Medi 2013 wedi lleihau'r risg y bydd y prosiect yn methu â chael cymeradwyaeth derfynol gan Lywodraeth Cymru. I liniaru hyn bu trafodaethau rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru am ddatblygiad prosiect Ysgol Newydd y Rhyl.

Mae'r prosiect ar y cyfan yn cael ei reoli gan Reolwr Prosiect profiadol gyda threfniadau clir ar gyfer rheoli risg yn ystod y prosiect.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 / Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972